

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Rhagfyr 2021



1. Cefndir

Bil Diwygio Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)¹ ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 12 Mai 2021. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ei noddi.

2. Yn nodiadau esboniadol y Bil, nodir fel a ganlyn:

*"Through this Bill the Government aims to make leasehold ownership fairer and more affordable for leaseholders by ensuring that freeholders/landlords will no longer be able to make financial demands for ground rent. The Bill also prohibits the charging of administration charges in relation to peppercorn rents."*²

3. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 14 Medi 2021 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 15 Medi 2021. Cwblhaodd y Bil ei ail ddarlleniad ar 29 Tachwedd yn Nhŷ'r Cyffredin. Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, nid oedd dyddiad y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i gadarnhau.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu'n dod o fewn y cymhwysedd hwnnw.

5. Ar 26 Mai 2021, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol³ (y Memorandwm) gerbron Senedd Cymru mewn perthynas â'r Bil.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 14 Hydref

¹ Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), fel y'i cyflwynwyd

² Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), Nodiadau Esboniadol, paragraff 1

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), Mai 2021

2021.⁴ Yn dilyn hynny, estynnwyd y dyddiad cau i 18 Tachwedd 2021⁵, 2 Rhagfyr 2021⁶ a 9 Rhagfyr 2021.⁷

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

7. Mae paragraff 12 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad mewn cysylltiad â'r holl ddarpariaethau yn y Bil.

"Rydym o'r farn bod angen cydsyniad Senedd Cymru mewn perthynas â holl ddarpariaethau'r Bil am eu bod yn ymwneud â rheoleiddio rhenti a pholisi tai nas cedwir yn ôl. Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru."

8. Mae paragraffau 13 i 80 o'r Memorandwm yn nodi rhagor o fanylion am y darpariaethau yn y Bil.

Rhesymau dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil

9. Nodir y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil ym mharagraffau 81 i 84 o'r Memorandwm.

"Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai deddfwriaeth sylfaenol o fewn meysydd lle mae cymhwysedd deddfwriaethol gael ei deddfu gan Senedd Cymru. Fodd bynnag, cyfyd amgylchiadau lle mae'n fanteisiol cynnwys darpariaethau a allai fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol ym Miliâu Senedd y DU (gyda chydysyniad Senedd Cymru).

Mae darpariaethau'r Bil yn synhwyrol ac yn bwysig: maent yn mynd i'r afael â gwendidau yn y farchnad lesddaliadol a gydnabyddir yn gyffredinol. Cynhaliwyd prosiectau Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio cyfraith lesddaliad ar sail Cymru a Lloegr. Ar ôl ymgynghoriad, daeth y Comisiwn i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o angen am ddarpariaeth wahanol yn y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi bod yn gweithio

⁴ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad \(Rhent Tir\)](#), Gorffennaf 2021

⁵ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad \(Rhent Tir\)](#), Medi 2021

⁶ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad \(Rhent Tir\)](#), Tachwedd 2021

⁷ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad \(Rhent Tir\)](#), Tachwedd 2021

gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, felly credir ei bod yn synhwyrol gweithredu ar sail Cymru a Lloegr.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddiwygiadau pellach, gan gynnwys deddfu ar argymhellion prosiectau Comisiwn y Gyfraith. Ystyrir bod sefydlu cynsail, a chadw cyffredinrwydd presennol y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr yn fuddiol. O ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth bresennol ar lesddaliadau, byddai dull gweithredu cydlynol a chyson yn fuddiol i Gymru a Lloegr. Mae Cymru a Lloegr yn rhannu proffesiynau cyfreithiol a thrawsgludo.

Hefyd, mae Llywodraeth y DU wedi llwyddo i gyflwyno deddfwriaeth gerbron Senedd y DU lawer yn gynt nag y byddai amserlen Senedd Cymru yn ei ganiatáu. Drwy weithredu ar y cyd, bydd modd i ddiwygiadau gael eu deddfu'n gynharach yng Nghymru nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall."

10. Mae'r Memorandwm yn dod i'r casgliad a ganlyn:

"Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gerbron Senedd y DU, yn amodol ar ddiwygiadau gan Lywodraeth y DU y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio er mwyn mynd i'r afael â materion mewn perthynas â'r Tribiwnlys Priso Lesddaliadau yn ogystal â darparu Pwerau Gweithredu cymaradwy i Weinidogion Cymru. Bydd y Bil yn gwneud newidiadau pwysig i Renti Tir lawer yn gynt nag y gellid eu cyflawni drwy ddeddfwriaeth ar wahân i Gymru."⁸

2. Trafodaeth y Pwyllgor

11. Trafodwyd y Memorandwm yn gyntaf yn ein cyfarfod ar 13 Medi.⁹

12. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, nid oeddem yn gallu bwrw ymlaen â sesiwn dystiolaeth a drefnwyd gyda'r Gweinidog felly, ar 15 Tachwedd, gwnaethom ysgrifennu¹⁰ ati

⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 87

⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Medi 2021

¹⁰ Llythyr at y Gweinidog, Newid Hinsawdd, 15 Tachwedd 2021

gyda chwestiynau ar y Memorandwm, a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diogelwch Adeiladau.¹¹ ¹² Cawsom ymateb ar 16 Tachwedd.¹³

13. Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 6 Rhagfyr 2021.

Ein barn ni

Y Memorandwm

14. Mae'r Memorandwm sy'n cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i geisio cydsyniad ar gyfer y Bil yn eithriadol o wael.

15. Mae nifer o enghreifftiau yn y Memorandwm lle y mae'n ymddangos y tynnwyd y crynodeb o gymalau neu wybodaeth arall yn uniongyrchol o'r nodiadau esboniadol sy'n cydfynd â'r Bil. Er enghraifft:

- mae paragraff 23 o'r Memorandwm sy'n ymwneud â chymal 5 o'r Bil yn cyfeirio at amodau a roddir ar gynlluniau rhanberchenogaeth "a ariennir gan y Llywodraeth". Nid yw'n glir o'r Memorandwm a yw hyn yn ymwneud â Llywodraeth y DU yn unig neu â Llywodraeth Cymru ac, os yw'n ymwneud â Llywodraeth y DU yn unig, pam mae wedi'i gynnwys;
- mae'r disgrifiad ym mharagraff 32 sy'n ymwneud â chymal 8(2) o'r Bil yn cyfeirio at bwerau cynghorau dosbarth yn Lloegr; darpariaeth nad oes ganddi gymhwysedd yng Nghymru yw hon.

16. Ychydig o wybodaeth sydd yn y Memorandwm i esbonio sut y mae'r darpariaethau'n ymwneud, neu y bwriedir iddynt ymwneud, â diwygio cyfraith lesddaliad yng Nghymru.

17. O ganlyniad i hynny, mae cyfeiriadau parhaus hefyd at bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol er bod hyn yn faes datganoledig. Er bod y Memorandwm yn cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio "Pwerau Gweithredu cymaradwy" i Weinidogion Cymru, ymddengys na fu llawer o ymdrech i esbonio i ba bwerau Ysgrifennydd Gwladol y bydd hyn yn gymwys.

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Diogelwch Adeiladau](#), Gorffennaf 2021

¹² Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\), Bil Diogelwch Adeiladau](#), Medi 2021

¹³ [Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 16 Tachwedd 2021

18. Rydym yn tynnu sylw at ragor o ddiffygion gyda'r Memorandwm yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

19. Yn gyffredinol, yr argraff a roddir gan y Memorandwm yw ei fod wedi'i baratoi ar frys a heb fawr o ystyriaeth o ran sut y bydd y ddeddfwriaeth hon mewn maes polisi datganoledig yn effeithio ar gymunedau yng Nghymru. O ganlyniad i hynny, mae'r achos a ddadleuwyd ynghylch pam y dylai'r Senedd gydsynio i'r darpariaethau yn y Bil yn llai na boddhaol.

20. Gwnaethom godi ein pryderon cyffredinol gyda'r Gweinidog am y Memorandwm a gofyn a oedd yn fodlon ar ei ansawdd a'i gyflawnrwydd. Mewn ymateb, dywedodd ei bod.¹⁴

21. Fodd bynnag, nodwn fod llythyr y Gweinidog atom ar 16 Tachwedd yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i ddeall safbwynt Llywodraeth Cymru ac eto nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y Memorandwm. Er enghraifft, mae llythyr y Gweinidog yn nodi'r canlynol:

*"Er mwyn creu cyfres gwbl gydlynol o ddiwygiadau deddfwriaethol mewn perthynas â chyfraith lesddaliad, mae'n rhaid i bob elfen o'r ddeddfwriaeth gyd-fynd â'r lleill. Er inni nodi yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ein bod o'r farn bod y Bil hwn o fewn cymhwysedd y Senedd, mae'n bosibl iawn y gallai rhai elfennau o'r rhaglen ehangach o ddiwygiadau fod y tu hwnt i gymhwysedd y Senedd. Felly, dim ond drwy weithio gyda Llywodraeth y DU, a thrwy ddefnyddio deddfwriaeth a wneir ar sail Cymru a Lloegr, y gallwn sicrhau y bydd yr holl elfennau unigol yn cyd-fynd â'i gilydd."*¹⁵

22. Er gwaethaf y sylwadau hyn, mae'r Gweinidog hefyd yn nodi'r canlynol:

"... mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rhent Tir, yn wir, yn nodi y bydd ein bil arfaethedig ar ddiogelwch adeiladau, i'w gyflwyno'n ddiweddarach yn ystod tymor y Senedd hon, yn ymgorffori mesur sy'n ymwneud â diwygio cyfraith lesddaliad, sef creu system cofrestru a thrwyddedu mewn perthynas â'r rhai sy'n ymwneud ag agweddau ar ddiogelwch adeiladau. Fodd bynnag, bwriadwn i'r cynllun hwn hefyd gynnwys endidau eraill sy'n ymwneud â rheoli eiddo neu ystadau. Bydd hon yn gyfres gymharol hunangynhwysol o drefniadau a fydd yn benodol i

¹⁴ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 4

¹⁵ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 1

*Gymru, mewn modd tebyg i'r gofynion cofrestru a thrwyddedu a osodwn ar landlordiaid preswyl ar hyn o bryd."*¹⁶

23. Hefyd, nodwn sylwadau'r Gweinidog yn ei llythyr ar 16 Tachwedd, sy'n berthnasol i'n harsylwadau ym mharagraff 15 uchod ac maent yn dangos diffyg ffocws Cymru yn y Memorandwm:

*"Mae'r Pwyllgor wedi awgrymu bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rhent Tir yn cyfeirio at ddarpariaethau sy'n ymwneud â Lloegr yn unig. Ar ôl gofyn i'm swyddogion edrych eto ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rwy'n credu ei fod o bosibl yn cynnwys y model rhanberchnogaeth a nodir ym mharagraff 23. Mae'r model hwn yn debyg iawn i'r un sy'n gweithredu yng Nghymru, yn yr ystyr bod terfynau ar lefelau rhent a chodi rhent. Yng Nghymru, mae'r terfynau perthnasol ychydig yn wahanol i'r rhai a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gyda rhent cychwynnol yn cael ei gapio ar 2.75% o'r ecwiti nas gwerthwyd a'r gallu i godi rhent ar ôl hynny wedi'i gyfyngu i 1% uwchlaw'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Rwy'n fodlon bod y paragraff hwn wedi'i gynnwys ond byddwn yn diweddarau'r ffigurau mewn ffordd briodol pan gaiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ei osod."*¹⁷

24. Byddem wedi disgwyl y byddai'r Gweinidog o leiaf wedi cydnabod y gallai'r Memorandwm fod wedi bod yn well a chynnwys mwy o ffocws ar Gymru wrth esbonio ei ddull gweithredu.

Casgliad 1. Nid yw'r Memorandwm a osododd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil, ac sy'n sail i geisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil, yn addas at y diben ac mae'n is na'r safon sy'n dderbyniol yn ein barn ni.

Argymhelliad 1. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, dylai'r Gweinidog esbonio'r canlynol:

- pam nad oes gan y Memorandwm ffocws ar Gymru wrth esbonio'r cymalau perthnasol, y mae pob un ohonynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;

¹⁶ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 3

¹⁷ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 4

- pam na chyfeiriodd y Memorandwm at agweddau ehangach ar y rhaglen diwygio cyfraith lesddaliad a allai fod y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;
- pa agweddau penodol ar y rhaglen diwygio cyfraith lesddaliad a allai fod y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac amseriad unrhyw Fil Llywodraeth y DU yn y dyfodol y byddant yn cael eu cynnwys ynddo.

25. Rydym yn ailhaeru sylwadau a wnaed yn ein hadroddiad cynharach ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd ynghylch yr angen am wybodaeth lawn a thryloyw, ac y dylai Memorandwm ddadlau'r achos dros y dull a fabwysiadwyd a pheidio â rhagdybio cydsyniad y Senedd.¹⁸

Oedi wrth osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

26. Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil yn amodol ar ddiwygiadau y mae'n eu ceisio er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys Prasio Lesddaliadau, yn ogystal â'r pwerau gweithredol (h.y. pwerau gwneud rheoliadau) i Weinidogion Cymru, y cyfeiriwyd atynt yn gynharach.¹⁹

27. Diwygiwyd y Bil ym mis Gorffennaf 2021 i ddarparu'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Dim ond ar 24 Medi y rhoddwyd cadarnhad bod gwelliannau wedi'u gwneud i gynnwys pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, mewn ymateb i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn dilyn ei gais am eglurder ar y mater hwn.²⁰ Yn ei hymateb i'r Pwyllgor hwnnw, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

"Yn olaf, er bod gwelliannau Llywodraeth i'r Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), a gyflwynwyd ar 20 Gorffennaf, wedi dirprwyo rhai pwerau i Weinidogion Cymru ac wedi gwneud newidiadau priodol eraill, mae angen gwelliannau pellach yn fy marn i er mwyn i'r Bil weithio'n effeithiol. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod yr angen am drafodaeth bellach ar hyn ac mae ein swyddogion yn gweithio'n agos ar welliannau priodol. Fodd bynnag, nid wyf yn rhagweld y bydd y rheini cael eu cyflwyno cyn diwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr. Er y byddai Memorandwm atodol fel arfer yn cael ei osod o fewn pythefnos i gyflwyno unrhyw welliannau, y tro hwn rydym yn ymwybodol y bydd gwelliannau pwysig pellach yn cael eu

¹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, Medi 2021, paragraffau 14-15

¹⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 87

²⁰ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 24 Medi 2021

cyflwyno ac felly, er mwyn bod yn fwy defnyddiol i aelodau, byddwn yn ceisio cyhoeddi Memorandwm atodol bryd hynny."²¹

28. Gwnaethom godi pryderon gyda'r ymateb hwn mewn llythyr at y Pwyllgor Busnes.²²

29. Yn ei llythyr atom ar 16 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog mai ei bwriad o hyd yw gosod Memorandwm atodol "ddiwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr, unwaith y bydd yr holl welliannau disgwylidig i'r Bil wedi cael eu cyflwyno". Ychwanegodd fel a ganlyn:

"Yn fy marn i, bydd cyflwyno un Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol sy'n cwmpasu'r holl welliannau i'r Bil Rhent Tir yn llawer mwy defnyddiol i Aelodau o'r Senedd na sawl memorandwm atodol sy'n ymdrin â gwelliannau gwahanol ar adegau gwahanol. Bydd un memorandwm atodol yn rhoi darlun cyflawn a chydlynol. Bydd sawl memorandwm atodol, o reidrwydd, yn rhoi darlun anghyflawn ac efallai y bydd risg o amryfusedd a diffyg cydlyniaeth."²³

30. Rydym eisoes wedi ymdrin â sawl Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Biliau unigol Llywodraeth y DU ac, ar ôl addasu'n llwyddiannus i'r heriau a ddaw yn sgil hyn, nid ydym o'r farn bod amryfusedd na diffyg cydlyniaeth i'r dull hwn.

31. Wrth ofyn am gyflawnrwydd ac ansawdd y Memorandwm, gwnaethom awgrymu bod diffyg gwybodaeth am y gwelliannau roedd Llywodraeth Cymru yn eu ceisio i'r Bil. Ymatebodd y Gweinidog y nododd y Memorandwm:

"...ein bod yn ceisio gwelliannau mewn perthynas â'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau a hefyd mewn perthynas â rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru. Mae gwelliannau bellach wedi cael eu cyflwyno mewn perthynas â'r materion hyn."²⁴

32. Ni chredwn fod yr ymateb hwn yn ateb ein cwestiwn.

33. Fel y nodwyd yn ein llythyr at y Pwyllgor Busnes, rydym yn pryderu am yr oedi gormodol, y tu hwnt i'r gofyniad dwy wythnos arferol a nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd, wrth osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Atodol)²⁵. Mae rhyw bedwar

²¹ [Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai](#), 1 Hydref 2021

²² [Llythyr at y Pwyllgor Busnes](#), 29 Hydref 2021

²³ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 10

²⁴ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 4

²⁵ Gosodwyd Memorandwm Atodol ar 26 Tachwedd 2021 a chaiff adroddiad ei gyflwyno arno ar wahân.

mis bellach wedi mynd heibio ers y gwnaed gwelliannau perthnasol ym mis Gorffennaf a fyddai'n sbarduno'r angen am Femorandwm Atodol, er bod y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol wedi'i drefnu, ar hyn o bryd, ar gyfer 14 Rhagfyr²⁶ a disgwylir y Cydsyniad Brenhinol ar gyfer Bil Llywodraeth y DU o bosibl cyn diwedd y flwyddyn.²⁷

34. Drwy benderfynu cadw gwybodaeth hanfodol yn ôl rhagom tan yn hwyr yn y broses, mae'r Gweinidog yn lleihau'r amser sydd gennym i graffu ar ei dull gweithredu ar gyfer y Bil ac yn rhwystro ein gallu i ddeall ar ba sail y mae'n credu y dylai'r Senedd gydsynio i'r holl ddarpariaethau yn y Bil mewn maes datganoledig.

35. Felly, nid ydym o'r farn bod dull gweithredu'r Gweinidog yn ddefnyddiol fel y mae'n awgrymu. Rydym yn pwysleisio gyda pharch mai pwyllgorau'r Senedd sy'n penderfynu beth sy'n ddefnyddiol iddynt, yn hytrach na Gweinidogion Cymru sy'n destun craffu ganddynt.

Casgliad 2. Rydym yn gresynu at yr oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â gwelliannau a wnaed i'r Bil ar 20 Gorffennaf 2021 ac rydym o'r farn ei fod wedi rhwystro ein gallu i graffu'n effeithiol ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i geisio cydsyniad i ddeddfu drwy gyfrwng Bil Llywodraeth y DU mewn maes datganoledig.

Pwerau dirprwyedig

36. Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys pwerau dirprwyedig mewn chwe chymal i'r Ysgrifennydd Gwladol ond dim un i Weinidogion Cymru, er bod y Bil yn dod o fewn maes polisi cwbl ddatganoledig.

37. Yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi, estynnwyd pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid estynnwyd yr holl bwerau dirprwyedig, gyda rhai'n cael eu cadw yn ôl gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

38. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog pam mai dim ond i'r Ysgrifennydd Gwladol roedd rhai o'r pwerau dirprwyedig yn ymestyn a beth y byddai'r goblygiadau pe bai'r darpariaethau perthnasol yn parhau heb eu diwygio, ymatebodd fel a ganlyn:

"Dim ond tri phŵer i wneud rheoliadau, heb gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chychwyn, sydd heb gael eu dirprwyo. Rwy'n fodlon nad ydynt yn hanfodol i weithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol yng Nghymru.

²⁶ [Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai](#), 22 Tachwedd 2021

²⁷ [Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 18 Tachwedd 2021

Y pŵer cyntaf nas dirprwywyd yw'r pŵer i ragnodi'r hysbysiadau i'w defnyddio mewn perthynas ag esemptio prydlesau busnes rhag bod yn y ddeddfwriaeth (cymal 2(2)). Rwy'n fodlon nad oes angen y pŵer arnom i ragnodi hysbysiadau gwahanol i Gymru at y diben hwn. Mae nid yn unig yn fater technegol iawn, mae'n fater lle y byddai'n anodd rhagweld unrhyw reswm pam y byddai Cymru a Lloegr yn gweithredu'n wahanol i'w gilydd.

Yr ail bŵer nas dirprwywyd yw'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n diwygio'r diffiniad o brydlesau cynlluniau cyllid cartrefi, sydd wedi'u hesemptio rhag bod yn y Bil (cymal 2(6)). Nododd y Gweinidog yn Senedd y DU nad oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pŵer hwn, ond caiff ei gadw yn ôl rhag ofn y bydd angen cyfyngu ar achosion posibl o gamddefnyddio'r esemptiad. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw reswm pam y byddai byth angen gweithredu'n wahanol yng Nghymru i'r hyn a wneir yn Lloegr.

Yn drydydd, nid yw'r pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol wedi'i ddirprwyo (cymal 21(1)). Nid yw hon yn sefyllfa anarferol a phan gaiff deddfwriaeth ei gwneud gan y Senedd, bydd yn aml cynnwys y pŵer i Weinidogion Cymru wneud newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall y DU nad yw wedi'i datganoli.

Mae'r Bil ei hun yn gwneud diwygiadau canlyniadol allweddol (cymalau 19-20) i ddeddfwriaeth sylfaenol, felly mae'n annhebygol y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio mewn ffordd arwyddocaol sut bynnag.²⁸

39. Nid ydym yn eglur a yw'r Gweinidog yn awgrymu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gael pwerau i wneud rheoliadau mewn maes polisi datganoledig.

40. Hoffem gynnig rhai sylwadau cyffredinol hefyd. Er nad oes cynlluniau efallai i'r Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio rhai o'r pwerau ar hyn o bryd, nad yw hynny'n golygu na ellir eu defnyddio fel y caniateir gan y Bil. Yn ogystal, gellid eu defnyddio yn y dyfodol, yn enwedig, er enghraifft, os yw'r person sy'n Ysgrifennydd Gwladol yn newid. Ymhellach, o gofio y gall amgylchiadau newid yn aml am resymau nas rhagwelwyd eto, rydym yn synnu bod y Gweinidog yn awgrymu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gael pwerau i wneud rheoliadau yng Nghymru ar y sail nad oedd yn "ymwybodol o unrhyw reswm pam y byddai byth angen gweithredu'n wahanol yng Nghymru i'r hyn a wneir yn Lloegr".

²⁸ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 11

41. Mae'r sefyllfa, fodd bynnag, yn aneglur, oherwydd ymddengys bod Gweinidogion Cymru wedi cael pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â chymal 2(6) ym mis Gorffennaf, a chafodd hyn ei gydnabod mewn Memorandwm Atodol a osodwyd ar 26 Tachwedd. Rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar hwn ar wahân.²⁹

42. Rydym o'r farn y dylid rhoi'r holl bwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio mewn meysydd datganoledig. Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i rai pwerau i wneud rheoliadau mewn maes datganoledig gael eu cadw yn ôl gan yr Ysgrifennydd Gwladol oherwydd rhesymeg y Gweinidog y gallent gael eu harfer yn anfynych neu oherwydd disgwyliad na fyddai polisi Cymru yn wahanol i bolisi Lloegr.

43. At hynny, byddai rhoi'r holl bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau angenrheidiol yn sicrhau y bydd yr holl reoliadau sy'n ymwneud â diwygio cyfraith lesddaliad fel y mae'n gymwys yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn destun craffu gan y Senedd. Byddai hefyd yn osgoi gwneud rhai rheoliadau gan Weinidogion Cymru a rhai gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a fyddai'n gwneud cyfraith Cymru yn llai hygyrch.

44. Un o'r materion a godwyd fel pryder yn ystod hynt y Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi oedd na fydd y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn cael eu cychwyn ar ddyddiad penodedig.³⁰ Yn lle hynny, byddant yn ddarostyngedig i reoliadau cychwyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid oes pwerau cychwyn i Weinidogion Cymru yn y Bil ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru. Mae hyn yn wahanol i'r Bil Diogelwch Adeiladau, sy'n destun Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, lle y mae rhai darpariaethau cychwyn wedi'u darparu i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

45. Gofynnwyd i'r Gweinidog esbonio'r dull gweithredu a fabwysiadwyd. Atebodd drwy ddweud y canlynol:

"Bydd darpariaethau'r Bil Rhent Tir yn gymwys yn yr un modd yng Nghymru ac yn Lloegr mewn ffordd nad yw'n wir am y Bil Diogelwch Adeiladau. At hynny, y disgwyl yw y bydd y gwaith o roi cyhoeddusrwydd i'r ddeddfwriaeth newydd yn ymdrech ar y cyd rhyngom ni a Llywodraeth y DU.

²⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 2) Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), 26 Tachwedd 2021, paragraff 24 ac Atodiad A

³⁰ Gweler y dadansoddiad yn Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Leasehold Reform \(Ground Rent\) Bill 2021-22](#), Medi 2021, adran 3.7

*O ystyried y sefyllfa hon, ni fyddai'n briodol cychwyn y Bil ar wahanol adegau yng Nghymru a Lloegr, felly nid oes angen i Weinidogion Cymru gael pwerau cychwyn.*³¹

46. Nodwn bryderon Tŷ'r Arglwyddi ynghylch darpariaethau cychwyn yn y Bil. Rydym o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru gael rheolaeth dros gychwyn darpariaethau diwygio cyfraith lesddaliad ar gyfer Cymru ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol. Ni fyddai dull o'r fath yn atal yr un darpariaethau rhag cael eu cychwyn yng Nghymru ar yr un pryd ag y cânt eu cychwyn yn Lloegr.

47. Yn sgil ein barn am y pwerau gwneud rheoliadau a chychwyn yn y Bil, rydym yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn.

Argymhelliad 2. Cyn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog sicrhau y caiff ei ddiwygio i ddarparu mai Gweinidogion Cymru sy'n arfer yr holl bwerau dirprwyedig i wneud is-ddeddfwriaeth yng Nghymru mewn meysydd datganoledig.

48. Byddai cyhoeddi Memorandwm Atodol yn brydlon mewn perthynas â'r gwelliannau a wnaed i'r Bil ym mis Gorffennaf wedi ein galluogi i drafod y materion hyn yn fanylach, gan gynnwys y rhesymau pam y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes polisi datganoledig ac y byddem yn disgwyl i Weinidogion Cymru fod yn gyfrifol amdano.

Rhesymau dros ddefnyddio Bil Llywodraeth y DU

49. Mae'r Memorandwm yn nodi nifer o resymau pam mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad ar gyfer Bil Llywodraeth y DU, yn hytrach na chyflwyno ei deddfwriaeth ei hun (gweler paragraffau 9 a 10). Ceisiodd ein llythyr at y Gweinidog drafod y rhesymau dros y dull gweithredu hwn.

50. O ran tarddiad y Bil a rôl Comisiwn y Gyfraith, gofynnwyd yn benodol i'r Gweinidog a oedd y Comisiwn yn argymhell Bil Cymru a Lloegr ac a oedd yn paratoi cymalau drafft. Mewn ymateb, dywedodd y canlynol:

"Yn ôl Comisiwn y Gyfraith, roedd y mwyafrif llethol o ymgynghoreion a atebodd ei gwestiwn ynghylch a ddylai fod unrhyw wahaniaeth rhwng y ffordd y dylid trin Cymru a Lloegr o dan gyfundrefn ddiwygiedig, o'r farn na ddylai fod gwahaniaeth. Felly, daeth y Comisiwn i'r casgliad nad oes unrhyw

³¹ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 12

*agweddau ar gyfundrefn ddiwygiedig a ddylai fod yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, nid yw'r Bil Rhent Tir ei hun yn rhan o argymhellion Comisiwn y Gyfraith ond, yn hytrach, Bil sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer rhoi'r argymhellion hynny ar waith mewn deddfwriaeth yn y dyfodol. Felly, yn yr achos hwn, nid yw'r Comisiwn wedi chwarae unrhyw ran yn y gwaith o ddrafftio cymalau'r Bil."*³²

51. Gofynnwyd am gapasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu. Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

"Mae deddfu yn y ddau faes hyn yn sicr yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein Rhaglen Ddeddfwriaethol, mae gennym lawer o flaenoriaethau eraill, ac er mwyn cyflawni pob un ohonynt, bydd angen inni weithredu mewn ffordd bragmatig ac, yn wir, mewn ffordd arloesol. Mae gweithredu yn y ffordd a gynigiwn er budd pobl Cymru yn fy marn i...

Yn achos y Bil Rhent Tir, mae deddfu drwy Fil gan Lywodraeth y DU nid yn unig yn cynnig ffordd bragmatig o weithredu sy'n cefnogi'r defnydd gorau o'n hadnoddau, mae hefyd yn cynnig y ffordd orau o sicrhau diwygiadau deddfwriaethol cydlynol a chynhwysfawr. Os byddwn yn dewis peidio â chydweithredu â Llywodraeth y DU ar y rhaglen diwygio cyfraith lesddaliad ac, yn lle hynny, yn dewis cyflwyno ein diwygiadau deddfwriaethol ar sail Cymru yn unig, byddai'r diwygiadau hynny yn cymryd mwy o amser ac yn dargyfeirio amser ac adnoddau gwerthfawr oddi wrth feysydd lle mae sicrhau deddfwriaeth benodol i Gymru yn hanfodol. Yn bwysicach na hynny, gallai arwain at gyfres o ddiwygiadau sy'n anghyflawn neu nad ydynt yn cyd-fynd yn briodol â diwygiadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud ynglŷn â Chymru mewn perthynas ag elfennau o'r rhaglen a all fod y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

*... Nid oes unrhyw randdeiliad yng Nghymru wedi codi unrhyw bryderon penodol am gynnwys y Bil Rhent Tir, ac mae'r unig ohebiaeth a gefais wedi bod yn gefnogol i'r diwygiadau arfaethedig i gyfraith lesddaliad – ac wedi galw arnom i sicrhau eu bod yn ymestyn i Gymru."*³³

³² Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 6

³³ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 2

52. O gofio'r sylw olaf hwn, er ein bod yn nodi cydnabyddiaeth y Gweinidog bod rhanddeiliaid wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r Bil, nodwn hefyd ei chydabyddiaeth "na chynhaliwyd ymgynghoriad penodol ar y Bil Rhent Tir ei hun".³⁴

53. Yn ôl y Gweinidog:

*"Byddai drafftio un Bil i'r Senedd sy'n cwmpasu'r holl agweddau ar ddiwygio cyfraith lesddaliad a ddymunir yn gryn ymrwymiad a fyddai'n arwain at fil hir a chymhleth iawn. Hyd yn oed pe bai'n ymarferol ddichonadwy inni ddeddfu mewn perthynas â phob agwedd ar ddiwygio cyfraith lesddaliad yn ystod tymor y Senedd hon, yn fy marn i, mae'n debygol y byddai angen mwy nag un Bil. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid yw'n amlwg o gwbl a fyddai gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu ar bob agwedd ar ddiwygio cyfraith lesddaliad."*³⁵

54. Gofynnwyd am oblygiadau gwneud y darpariaethau hyn ym Miliâu Llywodraeth y DU i hygyrchedd cyfraith Cymru. Dywedodd y Gweinidog, drwy ganiatáu i Senedd y DU ddeddfu, ei bod yn anochel bod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn Saesneg yn unig "ac mae'n hynny'n amlwg yn anffodus". Fodd bynnag, ychwanegodd fod y "materion o ran cymhwysedd... yn golygu fwy na thebyg mai'r ffordd orau o gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau bod y gyfraith yng Nghymru yn gydlynol ac yn hygyrch yw drwy gydweithio." Nododd hefyd y bydd rheoliadau a chanllawiau a wneir o dan y Bil ar ôl deddfu, yn ddwyieithog. Fel y nodwyd yn gynharach, cydnabu'r Gweinidog hefyd y byddai mesur sy'n ymwneud â diwygio cyfraith lesddaliad yn ymddangos mewn Bil gan y Senedd ar ddiogelwch adeiladau.³⁶

55. Gwnaethom ofyn hefyd am y goblygiadau i waith craffu, gan dynnu sylw at bryderon nad yw Aelodau o'r Senedd wedi cael y cyfle i graffu'n fanwl ar y Bil. Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

*"Bil cryno â 27 o gymalau yw'r Bil Rhent Tir. Gellid dadlau mai dim ond 19 o'r cymalau sy'n gymalau o sylwedd, sy'n cyflawni ei amcanion polisi mewn ffordd daclus a syml. Bydd yr Aelodau yn cael cyfle i graffu arno fel rhan o'r broses cydsyniad deddfwriaethol ac rwy'n credu, oherwydd natur gymharol gryno'r Bil, y byddent yn gallu gwneud hynny'n eithaf trwyadl."*³⁷

³⁴ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 5

³⁵ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 8

³⁶ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 3

³⁷ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 5

56. Dywedodd y canlynol hefyd:

*"Gobeithiaf, o ystyried pa mor fyr yw'r Bil hwn, y bydd Aelodau o'r Senedd yn teimlo eu bod yn cael digon o amser i graffu arno."*³⁸

57. Yn ogystal, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

*"Drwy roi cydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn perthynas â Chymru bydd hynny'n helpu i sicrhau y caiff dull gweithredu cydlynol ei fabwysiadu ym mhob agwedd ar y diwygiadau. Ar yr un pryd, bydd fy adran yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hystyried a'u diogelu'n briodol. Rwy'n credu mai dyna'r ffordd orau o hyrwyddo buddiannau lesddeiliaid yng Nghymru a hefyd sicrhau bod y setliad datganoli yn cael ei barchu'n briodol."*³⁹

58. Nid ydym o'r un farn â'r Gweinidog ynghylch lefel y gwaith craffu sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd mewn perthynas â'r Bil ac fel y mae'n nodi yn ei llythyr.

59. Gyda pharch, nodwn nad maint darn o ddeddfwriaeth, pa un ai Bil Llywodraeth Cymru neu Fil Llywodraeth y DU sy'n destun Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, yw'r ffactor sy'n penderfynu faint o amser sydd ei angen i graffu arno.

60. Nodwn fod Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru⁴⁰ yn cynnwys ymrwymiad i ddeddfu ar ddiwygio cyfraith lesddaliad o fewn tymor y Senedd hon ac i weithredu i ddeddfu argymhellion a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith i wneud gwelliannau yn y gyfraith mewn perthynas â lesddaliadau a chyfunddaliadau preswyl. Fodd bynnag, nodwn hefyd nad yw'n nodi'n glir y caiff Bil Llywodraeth y DU ei ddefnyddio fel modd o ddeddfu.

61. Fel rydym yn pwysleisio, ac fel roedd yn ymddangos bod y Gweinidog yn cydnabod mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai,⁴¹ mae defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig yn cynnig llai o gyfle i graffu'n fanwl na defnyddio Bil a gyflwynir i'r Senedd. Fel y gwnaethom dynnu sylw yn ein hadroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, mae ceisio cydsyniad Senedd Cymru i ganiatáu i Senedd y DU ddeddfu yn golygu na fydd modd i Aelodau o'r Senedd glywed

³⁸ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 10

³⁹ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 7

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, [Y Rhaglen Lywodraethu](#), 15 Mehefin 2021

⁴¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion](#), [13 ac 16], 17 Tachwedd 2021

tystiolaeth arbenigol, gwranddo ar farn rhanddeiliaid yng Nghymru a chyflwyno gwelliannau i brofi, herio a dylanwadu ar Weinidogion Cymru – sef offeryn craffu allweddol.⁴²

62. Rydym hefyd yn synnu bod y Gweinidog yn awgrymu, fel y mae wedi gwneud o'r blaen,⁴³ y bydd ei hadran yn gweithio i sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu diogelu. Fel y nododd ein hadroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd hefyd:

*"Amddiffyn anghenion a buddiannau Cymru yn llawn drwy deddfwriaeth yw swyddogaeth y Senedd mewn meysydd datganoledig."*⁴⁴

63. Ailadroddwn y pwynt hwn eto.

64. Nid ydym yn hollol glir chwaith sut y mae cyfiawnhad y Gweinidog dros ddefnyddio Bil Llywodraeth y DU yn gyson ag ⁴⁵egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU a roddodd y Cwnsler Cyffredinol i ni, yn benodol o gofio ei chyfeiriadau at weithredu "mewn ffordd bragmatig ac, yn wir, mewn ffordd arloesol" sy'n gwneud y "defnydd gorau o'n hadnoddau".⁴⁶

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, esbonio sut y mae'r dull gweithredu a fabwysiadodd Llywodraeth Cymru fel yr argymhellodd yn ei llythyr ar 16 Tachwedd 2021 (yn benodol fel y cyfeirir ato ym mharagraffau 21 i 22 ac 49 i 57 o'r adroddiad hwn) yn gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU.

65. Hefyd, hoffem wneud sylwadau ar ddau bwynt arall yn y Memorandwm.

66. Nodwn fod y Memorandwm yn dweud bod "Cymru a Lloegr yn rhannu proffesiynau cyfreithiol a thrawsgludo" wrth geisio cyfiawnhau defnyddio Bil Llywodraeth y DU.⁴⁷ Credwn nad oes gan y cyfiawnhad hwn fawr o werth, yn anad dim oherwydd ei bod yn sefyllfa sydd yr un mor gymwys i broffesiynau eraill sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig.

⁴² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd](#), Medi 2021, paragraffau 14-15

⁴³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, Medi 2021, paragraff 18

⁴⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, Medi 2021, paragraff 22

⁴⁵ [Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol](#), 22 Hydref 2021, Atodiad B

⁴⁶ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 2

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 83

67. Mae'r Memorandwm yn dweud y bydd Llywodraeth y DU "wedi llwyddo i gyflwyno deddfwriaeth gerbron Senedd y DU lawer yn gynt nag y byddai amserlen Senedd Cymru yn ei ganiatáu".⁴⁸ Mae penderfyniadau ynghylch pryd i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer gwaith craffu yn y Senedd yn fater i Lywodraeth Cymru ac ar ôl i Fil gael ei gyflwyno, bydd amserlen ar gyfer craffu yn cael ei phennu gan y Pwyllgor Busnes yn unol â Rheol Sefydlog 26. Rydym o'r farn ei bod yn amhriodol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio dadleuon sy'n ymwneud ag amserlen Senedd Cymru ar gyfer craffu i gyfiawnhau defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig.

68. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog am ei barn am oblygiadau cyfansoddiadol cronus gofyn a chaniatáu i Senedd y DU ddeddfu yn y ddau faes cwbl ddatganoledig (diwygio cyfraith lesddaliad a diogelwch adeiladau), atebodd fel a ganlyn:

"Mae'r goblygiadau cyfansoddiadol cronus yn gyfyngedig, yn fy marn i. Nid yw cydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau darpariaethau i Gymru a fydd yn diweddarau ac yn moderneiddio hen ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig yn newid mewn unrhyw ffordd nac yn tanseilio'r ffaith bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Gallwn wneud diwygiadau yn y dyfodol os bydd angen."⁴⁹

69. Nodwn fodd bynnag, mewn perthynas â diwygio cyfraith lesddaliad, fod yr awgrym y gall Senedd Cymru wneud diwygiadau i ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn gwrth-ddweud y dadleuon a ddefnyddiodd y Gweinidog am yr angen i ddeddfwriaeth ar ddiwygio cyfraith lesddaliad fod ar sail Cymru a Lloegr.

Casgliad 3. Nid ydym wedi cael ein darbwylo gan farn y Gweinidog am y dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â'r Bil ac mae dull Llywodraeth Cymru o wneud defnydd mor helaeth o Filiau Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn parhau i fod yn destun pryder mawr i ni.

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 84

⁴⁹ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 1
